# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 18 Hydref 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 25(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiwn Brys

**Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl Trafnidiaeth Cymru yn y broses gaffael i weithredu gwasanaethau rheilffordd yng Nghymru, yn dilyn y cyhoeddiad bod pedwar ymgeisydd yn cystadlu am fasnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau? EAQ(5)0055(EI)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Cyllideb Ddrafft 2017-18

(30 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

(45 munud)

**Dogfen Ategol**
Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Rhaglen i Ddileu TB Buchol

(30 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Dyfodol Gwasanaethau Bysiau yng Nghymru

(30 munud)

**Dogfen Ategol**
Datganiad Ysgrifenedig - Gwasanaethau Bws Lleol

## 7 Dadl: Adroddiad Blynyddol 2015-16 Comisiynydd y Gymraeg

(60 munud)

**NDM 6117 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn cydnabod Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2015-16, sy'n manylu ar y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2015-16

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg fel agwedd ganolog o ymdrechion y Llywodraeth i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gyflwyno strategaeth genedlaethol Cymraeg yn y gweithle er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o hawliau i dderbyn gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn gweithredu argymhelliad 4 yn adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol: Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog, i roi dyletswydd statudol i awdurdodau lleol, gan gynnwys yn eu swyddogaeth fel awdurdodau addysg lleol, i gynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol, ac i baratoi hyfforddiant addas i gwrdd â'r anghenion hynny.

'Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog'

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 19 Hydref 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Hydref 2016 i'w hateb ar 18 Hydref 2016

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyllid sydd ei angen ar gyfer Metro De Cymru? OAQ(5)0222(FM)

2. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0215(FM)

3. Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd buddsoddi mewn twristiaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0216(FM)

4. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y galw ar wasanaethau gofal sylfaenol? OAQ(5)0213(FM)

5. Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): Beth fydd y gost o roi grantiau prawf modd i fyfyrwyr sydd newydd gymhwyso o gartrefi sy'n ennill rhwng £50,020 ac £81,000? OAQ(5)0219(FM)

6. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau gweithredu pan benderfynir na all cymuned gael ei chysylltu o dan raglen Cyflymu Cymru? OAQ(5)0221(FM)**W**

7. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth canolfannau celfyddydol ledled Cymru? OAQ(5)0208(FM)

8. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwahaniaeth y mae'r grant amddifadedd disgyblion yn ei wneud i ganlyniadau addysgol yn Islwyn? OAQ(5)0214(FM)

9. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y sail dystiolaeth a'r gwaith ymchwil sy'n sail i

strategaeth ddatblygu economaidd Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0211(FM)

10. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Ardd Fotaneg Cymru? OAQ(5)0218(FM)

11. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi anghenion dysgu ychwanegol Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0212(FM)

12. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am dwf y diwydiant TGCh yng Nghymru? OAQ(5)0207(FM)

13. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau ar gyfer pobl ar y sbectrwm awtistiaeth? OAQ(5)0224(FM)**W**

14. Nathan Gill (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisi pysgota Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0217(FM)

15. David Melding (Canol De Cymru): Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar y cynnydd yn nealltwriaeth y cyhoedd o faterion iechyd meddwl a gyflawnwyd drwy ddigwyddiadau fel wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl? OAQ(5)0209(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**
**Toriad: dydd Llun 24 Hydref 2016 – dydd Sul 30 Hydref 2016**
**Dydd Mawrth 1 Tachwedd a dydd Mercher 2 Tachwedd 2016**
**Dydd Mawrth 8 Tachwedd a dydd Mercher 9 Tachwedd 2016**
**Dydd Mawrth 15 Tachwedd a dydd Mercher 16 Tachwedd 2016**

---

**Toriad: dydd Llun 24 Hydref 2016 – dydd Sul 30 Hydref 2016**

**Dydd Mawrth 1 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Yr Adolygiad Seneddol i Wasanaethau Iechyd a Gofal (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Y Targed o 20,000 o Dai Fforddiadwy (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Canolbwyntio ar Allforion (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Parodrwydd ar gyfer y Gaeaf (30 munud)
- Dadl: Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ar gyfer 2015-2016 (60 munud)

**Dydd Mercher 2 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Hannah Blythyn (Delyn) (30 munud)

**Dydd Mawrth 8 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Y Cynnig Gofal Plant i Gymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Cymru Hanesyddol (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Nodi Dydd y Cofio a Chefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Cymru o Blaid Affrica (30 munud)

**Dydd Mercher 9 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 15 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Ysgolion Gwledig (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Blwyddyn Chwedlau (30 munud)
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2016 (15 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2015/16 (60 munud)

**Dydd Mercher 16 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Assembly Business**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2017-18 (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer - Hefin David (Caerffili) (30 munud)